



NEWPORT MIND

DISGRIFIAD SWYDD

TEITL:	Swyddog Prosiect Meddwl Ymlaen
YN GYFRIFOL I:	CYPF Service Manager, Newport Mind
GRADD:	NJC 15 – 23 £23, 953 - £28, 226
ORIAU:	1 x Llawn Amser 37 awr yr wythnos 1 x 18.5 awr yr wythnos (0.5 FTE)
CONTRACT:	Penodiad Tymor Penodol tan mis Medi 2027 (yn amodol ar gyllid parhad)

PWRPAS Y SWYDD:

Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio law yn llaw gyda'r partner cyflawni arweiniol ProMo Cymru, ein partneriaid prosiect a phobl ifanc dros gyfnod o 5 mlynedd, ar brosiect newydd sbon Meddwl Ymlaen Gwent a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.

Byddwn yn cynllunio dulliau newydd o atal ac ymyrryd yn gynnar â phroblemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc sy'n byw yng Ngwent.

Gan roi pobl ifanc yng nghalon y gwaith o ddylanwadu a chyflawni newid ystyrllon i wasanaethau iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yng Ngwent, byddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys pobl ifanc, ProMo Cymru, Mind's lleol yng Ngwent a Gwasanaethau Ieuencid Gwent drwy gydol oes y prosiect.

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Cynorthwyo gyda gweithredu a rhedeg prosiect Mind our Future Gwent o ddydd i ddydd.

- Gweithio yn unol ag egwyddorion craidd y prosiect:
 - Cyd-gynhyrchu
 - Darpariaeth gyffredinol
 - Cydraddoldeb a Chynhwysiant
 - Adeiladu ar Asedau Cymunedol
 - Dysgu
 - Cyfathrebu
 - Cynlawdywedd
 - Dylunio yn Person Ifanc-Ganolog

- Gweithio ochr yn ochr â dylunwyr ifanc sy'n cyfoedion, wedi'u recriwtio i gyd-gynhyrchu'r prosiect yn y cyfnod cyflawni a chynnal llywodraethu dros y prosiect drwy gydol ei oes.

- Gweithio o fewn y gymuned i gynnwys pobl ifanc yn y prosiect, i lywio ei ddatblygiad a siapior'r broses o dylunio'r gwasanaeth.

- Cydgynhyrchu'r prosiect ny llawn, gan weithio'n agos gyda'r Gwirfoddolwyr Ymgysylltu a Llysgenhadon Lles (gwirfoddolwyr idanc) Mind Casnewydd, dynion a phoble ifanc o gymunedau difreintiedig, BAME a LHDT+ yng Ngwent.

- Gwneud pob ymdrech i gynnwys pobl ifanc amrywiol yn yr ymchwil a chyd-gynhyrchu'r prosiect a chynnig llwybrau i gyfranogiad parhaus y bobl ifanc hyn.

- Gweithio gyda'r partneriaid o fewn egwyddorion craidd y prosiect i gyflawni nodau a chanlyniadau a nodwyd yn ystod y cyfnod datblygu.

- Cefnogi'r Rheolwr Prosiect, sydd wedi'i leoli gyda ProMo Cymru i gynhyrchu adroddiadau prosiect, amserlenni, cyllidebau, adroddiadau anfonebau a chynlluniau gweithredu.

- Gweithio gyda'r Mind's lleol yng Ngwent i rannu arbenigedd a gwybodaeth am iechyd meddwl a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym mhob ardal berthnasol.

- Ymgysylltu â'r Gwasanaethau Ieuenctid Lleol i greu llwybrau ymgysylltu llwyddiannus i bob person ifanc ac i ledaenu'r hyn a ddysgir o'r prosiect.

DISGWYLIADAU

1. Gweithio yn unol â gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a nodau Mind Casnewydd, a chefnogi'r gwaith o'u cyflawni, a bod yn hyrwyddwr i Mind Casnewydd bob amser.

2. Cadw at a gweithio o fewn holl bolisiau Mind Casnewydd, megis polisi amddiffyn plant, amddiffyn oedolion agored i niwed, polisiau cyfrinachedd a diogelu data, a'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn y llawlyfr gweithwyr.
3. Cymryd rhan weithredol, ymgysylltu â, ac ymateb i, brosesau goruchwylio ac arfarnu Mind Casnewydd.
4. I fynychu a chyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd Mind Casnewydd a chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.
5. I fynychu a chyfrannu'n gadarnhaol at hyfforddiant Mind Casnewydd yn ôl yr angen.
6. Cyfrannu'n weithredol at ethos gwaith cadarnhaol, cefnogol ac adeiladol, perthnasoedd ac amgylchedd gyda Mind Casnewydd, sefydliadau partner a sefydliadau eraill.
7. Cyfrannu at wneud Mind Casnewydd yn weithle mwy gwyrdd.
8. Cefnogi a chyfrannu at ein nod cyffredinol o gyfranogiad pobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl, gan gynnwys o fewn Mind Casnewydd ac i ymrwymo i weithio ochr yn ochr â phobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl, fel cydweithwyr, arbenigwyr (cyflogedig a di-dâl) ac ymgyrchwyr.
9. Bod yn hyblyg, gallu addasu a gwneud gwaith i gefnogi nodau Mind Casnewydd yn ôl yr angen.

Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Oherwydd natur y swydd hon, fi fydd yn angenrheidiol i'r lefel briodol o ddatgelu cofnodion troseddol cael ei chwblhau. Felly, wrth wneud eich cais, mae'n hanfodol eich bod yn datgelu a oes gennych unrhyw gyhuddiadau, collfarnau, rhwymadau neu rybuddion yn yr arfaeth ac, os felly, pa droseddau. Bydd y swydd hon wedi'i heithrio o ddarpariaethau Adran 4(2) o Orchymyn Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiadau) 1986. Felly, nid oes gan ymgeiswyr hawl i atal gwybodaeth am euogfarnau sydd at ddibenion eraill wedi'u 'darfod' o dan y Ddeddf. darpariaeth y Ddeddf, ac, os bydd cyflogaeth yn cael ei llenwi, bydd unrhyw fethiant i ddatgelu collfarnau o'r fath yn arwain at ddiswyddo neu gamau disgyblu. Ni fydd y ffaith bod cyhuddiad, collfarn, rhwymiad neu rybuddied yn yr arfaeth wedi'i gofnodi yn eich erbyn o reidrwydd yn eich atal rhag cael eich ystyried ar gyfer y penodiad hwn.

MANYLEB PERSON

Mae hwn yn gweithredu fel meini prawf dethol ac yn rhoi amlinelliad o'r mathau o berson a'r nodweddion sydd eu hangen i wneud y swydd, dylid rhoi sylw i bob pwynt yn eich ffurflen gais. Mae'r ail golofn yn nodi a yw'r nodwedd yn hanfodol (E) neu'n ddymunol (D).

Profiad	
1. Profiad o weithio gyda phobl ifanc a chymunedau.	E
2. Profiad neu angerdd am archwilio dulliau newydd o ymdrin â phroblemau presennol, a herio dulliau a strwythurau traddodiadol.	E
3. Profiad o ddarparu lles a chymorth ymarferol i bobl ifanc i'w galluogi i wneud y gorau o'r cyfleoedd y maent yn manteisio arnynt.	D
4. Profiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o broblemau iechyd meddwl.	D
Sgiliau/Galluoedd	

<p>5. Gallu cynnwys pobl a grwpiau cymunedol mewn gweithgareddau mewn ffyrdd creadigol a diddorol</p> <p>6. Gallu mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn ymchwil a gweithgareddau</p> <p>7. Gallu gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc yn enwedig dynion ifanc a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig, BAME a LHDT+ yng Ngwent mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu hawliau, eu hurddas a'u hannibyniaeth.</p> <p>8. Gallu cyfathrebu'n effeithiol i safon uchel, ac addasu arddulliau cyfathrebu i siwtio i gynulleidfaoedd amrywiol</p> <p>9. Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o nifer o dimau a phartneriaethau.</p>	<p>E</p> <p>E</p> <p>E</p> <p>E</p> <p>E</p>
<p>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p>	
<p>10. Gallu deall ac ymateb i effaith anfantais, anghydraddoldeb, stigma a gwahaniaethu ar unigolion, cymunedau a grwpiau.</p> <p>11. Ymrwymiad i weithio ochr yn ochr â phobl â phroblemau iechyd meddwl neu brofiad o broblemau iechyd meddwl fel cydweithwyr.</p>	<p>E</p> <p>E</p>
<p>Addysg a Hyfforddiant</p>	

12. Gradd berthnasol neu brofiad perthnasol sy'n addas i'r rôl.	E
13. Cymhwyster gwaith ieuenctid	D
Gofynion Eraill	
14. Ymrwymiad i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth, trwy hyfforddiant a chyfleoedd eraill, i ddod yn arbenigwr mewn gwaith newid systemau ac iechyd meddwl.	E
15. Parodrwydd i fod yn hyblyg wrth ddiwallu anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl, anghenion Mind Casnewydd ac anghenion rhanddeiliaid eraill fel sy'n briodol i'r rôl.	E E
16. Ymrwymiad i ethos a gwerthoedd Mind a Mind Casnewydd.	E D
17. Trwydded yrru lân a mynediad i gar sy'n addas i'r ffordd fawr	
18. Y gallu i siarad cymraeg	

Byddwn yn ystyried unrhyw addasiadau rhesymol o dan delerau'r Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i alluogi ymgeisydd ag anabledd (fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf) i fodloni gofynion y swydd ac i fynychu cyfweiliad.

Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod polisiau Mind Casnewydd yn cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd ar ei waith, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â;

- (i) Amddiffyn Plant ac Amddifyn Oedolion Agored i Niwed
- (ii) Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
 - (ii) Iechyd a Diogelwch
 - (iii) Diogelu Data